

## FFORWM CYLLIDEB YSGOLION

5 Mawrth 2018

Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun

### Yn bresennol:

#### AELODAU:

Karen I Evans(KIE)  
Neil Foley(NF)  
Dr Paul Evans(PE)  
Dominic Tobin (DT)  
Sue Dick (SD)  
Bethan Cartwright (BC)  
Mari Gaskell (MG)  
Telari Llywd Jones (TLJ)  
Rona Jones (RJ)  
Mark Hatch (MH)  
Gethin Jones (GJ)  
Geraint Parry (GP)

Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Phlant  
Ysgol Uwchradd Prestatyn  
Ysgol Uwchradd Dinbych  
Ysgol Fendigaid Edward Jones  
Ysgol Bodfari  
Ysgol Glan Clwyd  
Ysgol Llywelyn  
Ysgol Borthyn  
Ysgol Santes Ffraid (Is-gadeirydd)  
Ysgol Dinas Brân  
Ysgol Tremeirchion  
Ysgol Brynhyfryd

#### HEB FOD YN AELODAU:

Craig Joyce (CAJ)  
Cathy Howatson (Minutes)  
Vicki Cotgreave (VC)  
Laura Poole (LP)  
Chris Speed (CS)  
Joanne Moore (JM)  
Ian Land (IL)  
Richard Hatwood (RH)  
Kevin Mowbray (KM)  
Jamie Roberts (JR)

Rheolwr Cyllid Ysgolion  
Swyddog Cyllid Ysgolion  
Ysgol y Castell  
Rheolwr Busnes a Chyllid – Ffydd  
Prif Swyddog Cyllid a Sicrwydd  
Perfformiad a Busnes  
Cynllunio ac Adnoddau  
Swyddog Cynhwysiant  
Rheolwr Cyllid – Clwstwr Dinas Brân  
Rheolwr Busnes – Clwstwr Dinas Brân

### Croeso

Estynnwyd croeso i'r grŵp gan Rona Jones (Cadeirydd).

**Roedd 12 aelod yn bresennol gan olygu fod gan y cyfarfod gworwm.**

### 1. Ymddiheuriadau

Paul Senior – Uwch Swyddog Cyllid  
Geraint Davies – Prif Reolwr Addysg  
Lindsay Davenport – Cynrychiolydd Llywodraethwyr Uwchradd  
Bethan Jones – Ysgol Gwernant  
Catherine Patterson – Ysgol Penmorfa

### 2. Cofnodion cyfarfod 9/10/17. Cytunodd y fforwm i'r cofnodion.

### 3. Aelodaeth y Fforwm - Craig Joyce

**Cynrychiolydd Llywodraethwyr Cynradd** – bydd Geraint Davies yn cwrdd â Chymdeithas y Llywodraethwyr ar 15/03/2018. Bydd yn gofyn i gynrychiolydd fynychu'r Fforwm ar ran yr ysgolion cynradd.

**Cynrychiolydd Undebol** – bydd Geraint Davies yn cwrdd â'r Bartneriaeth Ymgynghorol Addysg ar ddydd Mercher 7 Mawrth 2018.

Fel eitem agenda, bydd y mater yn cael ei drafod a chynrychiolydd yn cael ei ddewis i fod yn aelod o'r Fforwm.

Gofynnodd LP a oedd yn rhaid i'r Aelod Undebol fod o undeb addysgu? Dywedodd CAJ fod cylch gorchwyl y Fforwm yn nodi cynrychiolydd o Undeb Llafur Addysgu.

#### 4. Camau Nesaf gyda'r Gyllideb AAA Cynradd / Uwchradd - Joanne Moore (wede'r adroddiad am fanylion)

Roedd JM ac RH wedi mynychu'r cyfarfod. Y teimlad oedd bod y cyfarfod ym mis Tachwedd i drafod y camau nesaf wedi bod yn ddefnyddiol. Roedd y broses ymgynghori bellach wedi dod i ben. Roedd Cadeirydd y Fforwm Clystyrau wedi gwneud penderfyniad mwyafrifol llwyddiannus ar 22 Ionawr 2018.

##### Crynodeb o'r Gwasanaethau Ychwanegol i'w cyllido

Gwasanaeth	Costau
Tîm Allgymorth ASD / Cymdeithasol a Chyfathrebu estynedig	£61k
Pontio o addysg cyn-ysgol i addysg feithrin	£25k
Gwasanaeth Allgymorth estynedig i gynnwys Pontio o Addysg Feithrin i Dderbyn a Chymorth Ymddygiad estynedig ar gyfer addysg gynradd	£41k

Yr argymhelliad i'r Fforwm oedd y dylid cadarnhau'r cytundeb.

RJ – Nid oedd rhai cyrff llywodraethu'n cytuno ond roedd y bleidlais yn un fwyafrifol.

**GWEITHREDU – Pleidleisiodd y Fforwm i gytuno i'r cyllid ychwanegol ar gyfer AAA.**

#### 5. Adolygiad Cymorth i Fusnesau - Craig Joyce

Yr argymhelliad i'r Fforwm oedd rhannu'r arian ar sail 80% elfen sefydlog / 20% niferoedd disgyblion. Mae'r ffigurau wedi newid fymryn oherwydd data Medi 2018 a ddefnyddiwyd ac mae'r cyllidebau dangosol a anfonwyd allan yn cynnwys y diweddariad hwn.

RJ – Ar ôl derbyn ein cyllidebau, gallwn weld fod rhai ar eu hennill ac eraill ar eu colled ond mae hyn i'w ddisgwyl bob tro wrth addasu'r fformiwla.

Roedd MH yn deall bod angen yr adolygiad ond nid oedd yn amlwg

**GWEITHREDU – Pleidleisiodd y Fforwm i gytuno i'r diwygiad i'r fformiwla gyllido o ran y dyraniad Cymorth Busnes i Reolwyr Busnes a Chyllid.**

Cyrhaeddodd GJ y cyfarfod am 1.30pm.

#### 6. Cynaliadwyedd – Ysgol Dinas Brân

7.

Roedd MG eisiau gwybod ar ran Lindsey Owen (Rheolwr Busnes a Chyllid Clwstwr y Rhyl) a allai ysgolion ymgeisio am gynaliadwyedd ganol blwyddyn ac a oedd modd ôl-ddyddio unrhyw ddyraniad?

CAJ – mewn theori, cytunwyd y gallai ysgolion wneud cais am gynaliadwyedd os oeddent yn teimlo bod mater penodol mewn ysgol o dan y pennawd hwn.

Byddai'n rhaid i bob cais fod yn unigol a byddai'n bosib ôl-ddyddio unrhyw daliad os oedd yr achos busnes yn ddigon cryf ac angen hyn yn benodol. Ni fyddai unrhyw daliadau'n cael eu hól-ddyddio'n bellach nag un flwyddyn ariannol.

Diolchodd MH i'r Fforwm am y cymorth a'r cyllid ar gyfer 2017/18.

Y dyraniad ar gyfer cludiant oedd £200k ond roedd costau wedi cynyddu o'i gymharu â'r amcangost oherwydd y niferoedd presennol a'r sefyllfa bresennol. Mae 138 yn gadael ym Mlwyddyn 11 ac mae'n bosib y bydd angen bws arall ar ddisgyblion sy'n byw yn Garth a Threfor.

JR – ar hyn o bryd ni allwn gyfrifo faint yn union fydd y costau cludiant yn 2018/19. Mae gan yr ysgol grŵp derbyn o 200 a hyd yma mae 185 wedi ymgeisio.

Roedd IL wedi bod yn gweithio gyda Chludiant Teithwyr yn edrych ar ffigurau. Yr amcangost gan Peter Daniels oedd £213k ar gyfer 2018/19.

Roedd IL wedi gofyn a oedd yr ysgol wedi cynhyrchu Achos Busnes ar gyfer y Fforwm, ond roedd yr ysgol dan yr argraff y byddai'r Achos Busnes yr un fath ag un 2017/18, ond gyda chostau wedi eu diweddaru.

KM – yr amcangost ar gyfer y dyfodol fyddai tua £218k. Roedd yr ysgol yn gofyn am £220k oherwydd byddai hyn yn talu am y gorwariant o £2k a gafwyd yn 2017/18.

IL – disgwylir i Achos Busnes gael ei gyflwyno bob blwyddyn i sicrhau bod trafodaeth yn digwydd.

RJ – gallai fod rhai aelodau newydd ar y Fforwm nad ydynt yn gwybod am y cytundeb hanesyddol.

Gofynnodd MG am gadarnhad o beth oedd wedi'i gytuno. Ai'r amcangost o £200k ar gyfer 2017/18 oedd wedi'i gytuno, neu a allai'r ysgol ofyn yn ôl-weithredol am fwy o gyllid?

CAJ – mae'r cofnodion yn nodi y gellir hawlio'r dyraniad yn ôl-weithredol, ond gallai cyllid hefyd gael ei dynnu allan o'r dyraniad am y flwyddyn newydd os oedd yr ysgol wedi hawlio gormod.

KE – mae angen yr achos busnes i atgoffa pobl o'r hyn y bu'r Fforwm yn ei drafod yn flaenorol ac roedd hefyd angen ei roi gerbron i drafod a oedd yr achos yn agored i degwch a newid. Byddai'n ddefnyddiol ailgylchredeg yr achos busnes.

JR – pe bai'r dyraniad yn cael ei golli byddai'n cael effaith andwyol ar yr ysgol.

Gofynnodd PE a oedd y cludiant i ddisgyblion o'r tu allan i'r dalgylch, oherwydd yng nghlwstwr Dinbych roedd Ysgol y Faenol yn bwydo Ysgol Uwchradd Dinbych ond nid oedd cludiant i'r Ysgol Uwchradd. Felly mae'r disgyblion hynny'n mynd i Gonwy neu ysgolion eraill.

Dywedodd CAJ fod yr ysgol yn derbyn y dyraniad oherwydd bod mwy na 50% o'u disgyblion yn dod o'r tu allan i'r sir.

Cytunodd KE y gallai SBF edrych arno eto a rhoddodd wybodaeth i'r Fforwm am y newid ffiniau.

IL – mae opsiynau eraill posib y gellid edrych arnynt o un flwyddyn i'r llall. Gallai rhieni dalu am gludiant drwy ParentPay a'i gyflwyno'n flynyddol, fel na fyddai pob grŵp derbyn newydd ym mlwyddyn 7 yn gymwys am gludiant am ddim tan y byddai'n rhedeg drwy bob grŵp blwyddyn.

Cytunodd MH fod opsiynau eraill posib y dylai'r Fforwm ddechrau edrych arnynt ar gyfer 2019/20.

Teimlai KE ei bod yn syniad da edrych o'r newydd ac ail-werthuso'r dyraniad cynaliadwyedd er mwyn bod yn dryloyw. Ar yr ysgolion uwchradd yn unig y mae'n effeithio, nid y rhai cynradd. Roedd angen adolygu'r sefyllfa bresennol a chytuno ar gynllun i symud ymlaen.

Gofynnodd LP a fyddai llai o niferoedd ar gyfer YDB yn effeithio ar y cyllid y byddai Cyngor Sir Ddinbych yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru. Roedd Richard Weigh wedi edrych ar hyn o'r blaen a byddai'r pot cyllid cyffredinol i'r Cyngor yn llai yn y pen draw, ond effeithio ar y dyraniad disgyblion ar gyfer YDB fyddai hyn, nid ar ysgolion eraill o reidrwydd. Ni fyddai'n effeithio ar y cyllid cynaliadwyedd ond roedd yn bosib tynnu'r cyllid hwn allan o'r cyllid ysgolion fel arbediad effeithlonrwydd, er mai penderfyniad i'r aelodau fyddai hyn.

Teimlai MH y gallem ei newid ond nid oedd yn ffyddiog y byddent yn cael y plant o'r ardaloedd sy'n defnyddio'r bys oherwydd na fyddai rhieni'n fodlon talu.

BC – cytunodd y dylid cyflwyno copi o'r achos busnes i atgoffa'r aelodau. Roedd hefyd angen cwrdd ag anghenion disgyblion yng Nghyngor Sir Ddinbych. Roedd hefyd angen edrych eto ar y ddarpariaeth Gymraeg yn fformiwlâ'r gyllideb.

Cytunodd GP y dylai'r ysgolion gefnogi ei gilydd er mwyn cadw pob ysgol yn sefydlog.

Teimlai IL fod angen dod â'r achos busnes yn ôl i'r Fforwm bob blwyddyn.

GP – pryd fydd y broses yn dechrau? Bydd angen iddo fod yn y cyfarfod nesaf fel bod gan ysgolion amser i gynllunio am y flwyddyn academaidd ganlynol.

Gofynnodd RJ i'r grŵp bleidleisio.

Dyweddodd IL y dylid cytuno ar swm is o £213k ac edrych ar y dyraniad ar gyfer 2019/20 eto.

**GWEITHREDU: Pleidleisiodd y Fforwm i gytuno i ddyfarnu £220k i Ysgol Dinas Brân yn 2018/19. (£218k ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd a £2k yn ôl-weithredol ar gyfer 2017/18.)**

## 8. Materion yn codi o'r Clystyrau

### Cyllidebau Dangosol

Roedd RJ yn teimlo'n ddigalon ar ôl derbyn y cyllidebau dangosol. Mae'n ergyd drom i'r ysgolion uwchradd a gofynnodd lle mae rhywun yn mynd o'r fan hyn? Roedd Rheolwr Cyllid Ysgol Santes Ffraid wedi cynhyrchu model ar gyfer yr ysgol yn dangos y ffigurau Yswiriant Gwladol / Pensiynau a chostau'n cynyddu a'r cyllidebau ddim yn adlewyrchu hynny.

A oedd modd ymestyn trwyddedau diffyg ysgolion? Pa mor gynaliadwy fydd yr ysgolion? Byddai pryderon lles yn siŵr o godi.

Cofiodd LP un cyfarfod lle trafodwyd fod Cynghorwyr yn cael eu rhoi dan bwysau i gynyddu costau treth y Cyngor.

KE – roedd treth y Cyngor wedi codi'n barod yng Nghyngor Sir Ddinbych ac roedd pwysau ar addysg a gofal cymdeithasol. Rydym wedi cadw cefnogaeth yr aelodau etholedig ar gyfer Addysg ond mae pwysau cynyddol yn Sir Ddinbych.

Awgrymodd KE y dylid cynnal gweithdy ar y Gyllideb i'r Fforwm, i'w gynnal yn ychwanegol i'r Fforwm nesaf ym mis Mai. Dylid estyn gwahoddiad hefyd i Richard Weigh - Swyddog Adran 15, Steve Gadd - Prif Gyfrifydd a Huw Hilditch - yr Aelod Arweiniol dros Addysg.

CAJ – roedd yr ysgolion uwchradd wedi derbyn digon o arian i dalu am godiadau cyflog yn eu cyllidebau ond roedd y toriad i'r grant ôl-16 wedi effeithio ar yr ysgolion.

KE – a oedd posibilrwydd y gallai arian ddod gan Lywodraeth Cymru ar ffurf grant? Ond byddai hynny'n debygol o ddod gyda meini prawf ar sut y dylid ei wario.

Ni fyddai LIC yn newid eu barn na'u dull o weithredu. Mae angen i ni adolygu ein sefyllfa, cynnal y gweithdy ac edrych ar bolisiâu a phenderfyniadau i symud ymlaen. Efallai adolygu'r polisi cyflogau i athrawon oherwydd, ar hyn o bryd, mae athrawon yn symud i fyny'n awtomatig rhwng graddfeydd. Mae angen trafod pa mor anodd fydd pethau yn y dyfodol.

MG – roedd gwerth y disgybl AAA anghenion eithriadol wedi lleihau gan olygu bod mwy o anghenion ond bod angen cael llai o staff.

Roedd VC yn bryderus na fydd yr ysgolion yn gallu cwrdd â'r meini prawf anghenion eithriadol ar gyfer disgyblion.

KE – roedd angen trafod beth sy'n statudol mewn ysgolion. Bydd yn cynnwys deddfwriaeth yn y dyfodol.

**GWEITHREDU – CH i drefnu Gweithdy ar y Gyllideb ar ôl gwyliau'r Pasg.**

## 9. Unrhyw Fusnes Arall

Dim.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – dydd Mercher 18 Ebrill 2018 – Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun.**